Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd am dros ganrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd
Rhif Ffôn: **029 2056 6001**
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Y Parchedig Rhian Linecar (*Offeiriad*)
Ffôn: 01446 760 007
E-bost: rlinecar@gmail.com
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Wyn Mears - Ffôn: 029 2075 8726
E-bost: wyn@wynmears.com
Gwynn Matthews – Ffôn: 029 2089 1802
E-bost: m.g.derwendeg@gmail.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 029 2088 5151
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

5 Chwefror 2023
Septwagesima

8.00am Y Cymun Bendigaid
Darllenydd: Dilys Hicks

10.30am Y Cymun Bendigaid ac Ysgol Sul
Darllenwyr: Karl Davies / Gerallt Hughes
Emynau: 56 (Hanover); 162 (Ellers); 118 (Tretham); 250 (Rhondda)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Salm: 4
Darlleniadau: Amos 2:4-16
Effesiaid 4:17-32
Darllenwyr: Heulwen Jones/ Gwynn Matthews
Emynau: 54 (St James 331); 405 (Zurich 114); 233 (Tallis' Canon)

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: John Hicks, Ann Wyn Jones, Sera Stewart, Gwen Thomas, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros Nia Roberts a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

YN YR EGLWYS:

Dydd Mawrth 7 Chwefror 2023
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 8 Chwefror 2023
Dim gwasanaeth

Dydd Sul 12 Chwefror 2023
Secsagesima – Sul y Greadigaeth
10.30am Gwasanaeth Aml-oed
6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

SUL NESAF
Cynhelir ein gwasanaeth aml-oed y Sul nesaf, 12 Chwefror am 10.30am. Dyma wasanaeth ar gyfer holl deulu'r eglwys.

DATGANIAD ORGAN
Cynhelir y cyntaf mewn cyfres o ddatganiadau organ misol o dan nawdd *Cardiff Organ Events* yn EDS dydd Gwener 10 Chwefror am 1.15pm. David Geoffrey Thomas, organydd plwyf Eglwys Gadeiriol Llandaf fydd y datgeinydd. Mae'r datganiad yn rhad ac am ddim ond mae croeso gynnig cyfraniad ariannol ar y ffordd allan.

'DEWCH I GANU'
Bydd Côr Siambr Cantemus yn cynnal diwrnod 'Dewch i Ganu' yn EDS dydd Sadwrn 11 Chwefror 9.30am – 4.00pm. Mae'n agored i bawb a hoffai ganu Requiem Fauré ac un a Requiem gan Rutter. Tocynnau'n £12 a £1.50 i fenthyca sgôr. Am ragor o wybodaeth anfonwch e-bost i cantemuschamberchoir@hotmail.com.

ANGLADD
Cynhelir angladd Nia Roberts yng Nghapel y Briwnant, amlosgfa Thornhill dydd Iau 23 Chwefror am 12.00pm.

GWAITH AR FFENESTRI'R EGLWYS
Bydd y gwaith o ail osod y ffenestri yn dechrau dydd Llun 6 Chwefror gyda chodi'r sgaffaldiau allanol. Bydd y ffenestri yn cael eu gosod yn ôl yn eu lle dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau 7 – 9 Chwefror. **Bydd y parcio yn gyfyng iawn ar y llain parcio a gofynnir i chi roi blaenoriaeth i gerbydau'r gweithwyr yn ystod yr wythnos hon.** Ar ôl i'r ffenestri gael eu hailosod bydd tipyn o waith glanhau i'w wneud o amgylch yr allor ac yn festri'r côr.

GLANHAU YR EGLWYS
Os ydych yn barod i helpu gyda'r gwaith glanhau misol, a wnewch chi gael gair â Dilys Jones os gwelwch yn dda.

ESGOB NEWYDD LLANDAF
Bydd y Gwir Barchedig Mary Stallard yn cael ei chroesawu a'i gorseddu yn Esgob Llandaf yn yr Eglwys Gadeiriol dydd Sadwrn 29 Ebrill.

APÊL WCRAÍN
Diolch i bawb a gyfrannodd i'r apêl am ddillad a nwyddau eraill i ffoaduriaid y rhyfel yn Wcráin. Bu'r ymateb yn hael iawn ac mae gan y ganolfan ddigon o ddillad ar hyn o bryd. Mae'r nifer o ffoaduriaid o Wcráin yn Ne Cymru a thu hwnt bellach yn dechrau symud i dai neu fflatiau, ac mae'r ganolfan wedi gweld bod angen pethau ar gyfer y tŷ, megis llenni, dillad gwely, sosbenni, llestri, cyllyll a ffyrc ac yn y blaen. Os oes gennych rai o'r eitemau hyn nad ydych bellach eu hangen, mae croeso i chi ddod â nhw i neuadd yr eglwys. Am fanylion pellach cysylltwch â Judith Poulson.

EDRYCH YMLAEN
Y mae Mercher y Lludw yn syrthio ar 22 Chwefror eleni a bydd gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid ac arnodi â lludw am 10.30am. Byddwn yn cadw Gŵyl Ddewi dydd Sul 5 Mawrth gyda gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid am 10.30am a chinio o gawl i ddilyn.

GWEDDÏAU'R SUL

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:

- Eglwys Anglicanaidd Papua Guinea Newydd
- Ardal Gweinidogaeth De Cwm Cynon, y Parchedig Peter Lewis (Arweinydd), Tanya Bennett (Cadeirydd Lleyg)

GWYLIAU A DARLLENIADAU

Dydd Llun 6 Chwefror:
Genesis 1:1-9; Salm 104:1-12; Marc 6:53-56
Gweddïwn: Esgobaeth Patna (Eglwys Unedig Gogledd India)
Ardal Gweinidogaeth y Barri, y Parchedig Ganon Zoë King, Helena Coombes (Cadeirydd Lleyg)

Dydd Mawrth 7 Chwefror:
Gensis 1:20-2:4a; Salm 8; Marc 7:1-13
Gweddïwn dros: Tiriogaeth y Bobl, Eglwys Anglicanaidd Canada (Talaith yr Yukon)
Ardal Gweinidogaeth y Rhondda, y Parchedig Philip Leyshon (Arweinydd), Nicola Free (Cadeirydd Lleyg)

Dydd Mercher 8 Chwefror: Teilo (6ed ganrif), Esgob
Genesis 2:4b-9, 15-17; Salm 104:27-30; Marc 7:14-23
Gweddïwn dros: Esgobaeth Perth - Eglwys Anglicanaidd Awstralia
Deoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr, y Deon dros dro, y Parchedig Ganon Ian Hodges

Dydd Iau 9 Chwefror:
Genesis 2:18-25; Salm 128; Marc 7:24-30
Gweddïwn dros: Esgobaeth Peru – Eglwys Anglicanaidd De America
Bwrdd Addysg yr Esgobaeth, Beccie Morteo (Cyfarwyddwr Addysg Statudol), Deborah Griffths (Swyddog Addysg Cynorthwyol)

Dydd Gwener 10 Chwefror:
Genesis 3:1-8; Salm 32:1-7; Marc 7:31-37
Gweddïwn dros: Esgobaeth Peterborough – Eglwys Loegr (Talaith Caergaint)
Ardal Gweinidogaeth Llynfi ac Uwch Cwm Afan, y Parchedig Martyn Evans (Arweinydd), Ceri Morgan (Cadeirydd Lleyg)

Dydd Sadwrn 11 Chwefror:
Genesis 3:9-24; Salm 90:1-12; Marc 8:1-10
Gweddïwn dros: Eglwys Anglicanaidd y Philipinas
Ardal Gweinidogaeth Pedair Afon, y Parchedig Ganon Ian Hodges (Arweinydd), Geoff Lake (Cadeirydd Lleyg)